

CYNLLUN GWEITHREDU SAFONAU'R GYMRAEG

Ebrill 2018

**Paratowyd yn unol â gofynion
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017**

1. Cyflwyniad

- 1.1. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoleiddio'r Gymraeg). Rhestrir y safonau sy'n berthnasol i Brifysgol De Cymru yn 'Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.
- 1.2. Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â'r safonau canlynol y mae gan Brifysgol De Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. Bydd y ddogfen hon yn nodi sut y bwriadwn gydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, safonau llunio polisïau a'r safonau gweithredu a gyflwynwyd i'r Brifysgol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi ein trefniadau ar gyfer goruchwyllo, hyrwyddo a hwyluso'r safonau hyn.
- 1.3. Mae copi o'r safonau a gyflwynwyd i Brifysgol De Cymru ac y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon ar gael [yma](#).
- 1.4. Mae Prifysgol De Cymru eisoes yn cydymffurfio â nifer o ofynion Safonau'r Gymraeg yn rhinwedd ei Chynllun Iaith Gymraeg a pholisïau mewnol. Nodwn isod y mesurau ychwanegol a roddwyd ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion newydd dan y Safonau Iaith.
- 1.5. Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r Safonau, mae Prifysgol De Cymru wedi llunio a chyhoeddi cyfres o [ganllawiau](#) i staff ar fewnwyd y Brifysgol. Yn eu plith mae gwybodaeth a chanllawiau ar y canlynol:
 - Cefndir a gwybodaeth gyffredinol am y Safonau
 - Ateb y ffôn (yn cynnwys clipiau sain)
 - Canllawiau brandio
 - Gohebiaeth
 - Trefnu a chynnal cyfarfodydd
 - Digwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus

- Hawliau staff a myfyrwyr
- Hyfforddiant i staff
- Geiriadur termau a geirfa gyffredinol
- Canllawiau cyfieithu Prifysgol De Cymru

2. Cynllun Gweithredu

2.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

MAES	SUT MAE'R BRIFYSGOL YN CYDYMFFURFIO?
COFNODI DEWIS IAITH	Wrth gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, mae pob myfyriwr yn nodi eu dewis iaith. Cedwir yr wybodaeth hyn ar Quercus.
GOHEBIAETH	Bydd llofnod e-bost pob aelod o staff yn cynnwys y datganiad canlynol: Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to a delay. Mae'r Brifysgol wedi nodi y dylai siaradwyr Cymraeg gynnwys bathodyn iaith Gwaith wrth eu henwau. Darperir logo 'Dysgu Cymraeg' yn ogystal i staff sy'n dysgu Cymraeg. Ceir canllawiau manwl ar Yr Hwb yn ogystal â thempled i'w gopïo.
GALWADAU FFÔN	Bydd pob aelod o staff y Brifysgol yn ateb y ffôn yn unol â gofynion y Safonau, h.y. ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

	<p>Ceir canllawiau ac argymhellion ar Yr Hwb yn darparu cymorth ar ynganu (ysgrifenedig a chlipiau sain). Cynigwyd hyfforddiant ynganu i staff ym mhob adran a chyfadran yn ogystal â hyfforddiant o'r broses o drosglwyddo galwadau lle nad oedd staff yn siarad Cymraeg.</p>
<p>CYFARFODYDD A DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS</p>	<p>Ceir canllawiau manwl ar Yr Hwb yn darparu cymorth a chanllawiau ar y broses o drefnu a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus, yn unol â gofynion y Safonau. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau yn unol â gofynion paragraff 31.</p> <p>Mae'r broses ar gyfer seremonïau graddio ar gyfer seremonïau haf 2018, yn unol â gofynion safon 42.</p>
<p>DOGFENNAU A FFURFLENNI</p>	<p>Cafwyd awdit o'r dogfennau a'r ffurflenni a oedd ar gael i fyfyrwyr a'r cyhoedd ac mae unrhyw ddogfennau newydd wedi'u creu yn unol â gofynion y Safonau. Mae'r broses o ddiweddarau dogfennau a ffurflenni hanesyddol ar waith* ac yn rhan o gynlluniau gweithredu'r adrannau a'r cyfadranau, lle bo'n briodol. Bydd dogfennau a ffurflenni lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg ar wahân yn nodi:</p> <p>Mae'r ddogfen/ffurflen hon ar gael yn Gymraeg This document/form is available in Welsh</p> <p>*Noder – dyddiad gosod Hydref 2018 ar gyfer diweddarau hen ddogfennau a ffurflenni.</p>
<p>GWEFANNAU A GWASANAETHAU AR-LEIN</p>	<p>Mae Prifysgol De Cymru wedi cyflogi Cynorthwydd Cynnwys Digidol er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu gwefan ddwyieithog erbyn Hydref 2019, yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio. Mae tîm y we yn mapio'r system ac yn parhau i ddatblygu cynnwys dwyieithog, wedi'i deilwra ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg.</p> <p>Mae prif gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Brifysgol ar gael yn ddwyieithog, yn ogystal â'r cyrsiau lle ceir darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae staff a myfyrwyr yn cyfrannu at y cynnwys yn gyson er mwyn darparu straeon perthnasol i'r gynulleidfa Gymraeg.</p>
<p>ARWYDDION A HYSBYSIADAU</p>	<p>Mae canllawiau brandio a marchnata'r Brifysgol wedi'u diwygio a'u cyhoeddi ar fewnwyd y Brifysgol. Anfonir drafft o bob arwydd parhaol at yr Uned Gymraeg a'r Pennaeth Brandio i'w gyfieithu ac i sicrhau</p>

DERBYNFEYDD	<p>ansawdd a chydymffurfiaeth. Ceir templedi o arwyddion cyffredin ar yr Hwb i staff er mwyn hwyluso'r broses.</p> <p>Mae'r Brifysgol wedi recriwtio siaradwyr Cymraeg rhugl i gynnal y gwasanaeth switsfwrdd a'r dderbynfa ar gampws Trefforest. Mae'r gwaith o hyfforddi a datblygu staff yn mynd rhagddo gyda'r derbynfeydd eraill, yn unol â'r dyddiad gosod yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.</p> <p>Arddangosir arwyddion yn y dderbynfa sy'n nodi bod gwasanaeth Gymraeg ar gael ac mae'r staff yn gwisgo cortyn gwddf a/neu fathodyn Iaith Gwaith i gyfleu eu bod yn siarad Cymraeg.</p>
HUNANIAETH GORFFORAETHOL	<p>Mae'r Brifysgol wedi diwygio ei logo ac mae'r canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ar y fewnwyd ac wedi'u nodi mewn stori newyddion a anfonir at bob aelod o staff. Bydd unrhyw ddeunydd newydd yn cynnwys y logo newydd. Bydd Pennaeth Brandio'r Brifysgol yn monitro'r gwaith, fel rhan o'r gwaith brandio beunyddiol.</p>
CYFLWYNO GWAITH	<p>Mae'r Brifysgol wedi bod yn gweithredu'r Safon hwn ers sawl blwyddyn. Mae'r canllawiau (i staff a myfyrwyr) wedi'u hadolygu ac mae'r wybodaeth ar gael yn llawlyfr y cwrs a gyflwynir i bob myfyriwr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Bydd y gwaith yn cael ei fonitro yn unol â phrosesau sicrhau ansawdd arferol y Brifysgol.</p>
LLETY MYFYRWYR	<p>Mae'r Brifysgol eisoes yn gweithredu'r Safon hwn ac mae'n cael ei hyrwyddo ar wefan y Brifysgol; mewn diwrnodau agored ac yn y prospectws i is-raddedigion. Gofynnir i fyfyrwyr nodi a ydynt am rannu llety gyda siaradwyr Cymraeg eraill wrth iddynt wneud cais am le mewn neuaddau preswyl ac mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan Bennaeth Llety'r Brifysgol, mewn cydweithrediad â Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau Cymraeg y Brifysgol.</p>
TIWTOR PERSONOL	<p>Ceir cynllun penodol yn ymwneud â mentoriaid sy'n fyfyrwyr ar draws y Brifysgol a gofynnir ar y ffurflen a fyddai myfyrwyr yn dymuno cael mentor cyfrwng Cymraeg. Cafwyd ymgyrch yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17 am fwy o fentoriaid Cymraeg ac mae'r gwaith hyn yn parhau. Adolygir y broses law yn llaw â gweithdrefnau profiad myfyrwyr y Brifysgol.</p>

2.2. Safonau Llunio Polisiâu

- 2.2.1. Mae gan Brifysgol De Cymru ddyletswydd i asesu'r effaith posib ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Gymraeg wedi bod yn rhan o'r asesiad hwn ers sawl blwyddyn bellach wrth ystyried, llunio a diwygio polisiâu, strategaethau a phrosiectau.
- 2.2.2. Gofynnir yn benodol i'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen asesu i ystyried a fyddai'r gwaith yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y Gymraeg yn y Brifysgol. Gofynnir am ystyriaeth o'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg (staff a myfyrwyr), darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a'r gwasanaethau sydd ar gael.
- 2.2.3. Mae'n ofynnol i gwblhau ffurflen asesu effaith wrth ystyried, llunio a diwygio polisiâu, strategaethau a phrosiectau. Anfonir yr asesiadau at y Cynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a thrafodir yr asesiad am y Gymraeg gydag Is-Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg cyn eu cyflwyno i Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol.
- 2.2.4. Mae'r Brifysgol eisoes yn cydymffurfio â'r Safonau Polisi ond mae'r cwestiynau yn yr asesiad wedi'u diwygio er mwyn datblygu'r asesiad ac i annog staff i ystyried y Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg mewn cyd-destun ehangach.

2.3. Safonau Gweithredu

MAES	SUT MAE'R BRIFYSGOL YN CYDYMFFURFIO?
SWYDDI NEWYDD, RECRIWTIO AC	Cyflwynwyd cais i sicrhau bod system ymgeisio a chyflwyno Prifysgol De Cymru ar gael yn ddwyieithog. Cafwyd cyfnod i brofi'r system newydd yn ystod mis Mawrth a chyflwynir y system ar ei newydd wedd erbyn

YMGEISIO AM SWYDD	Pasg 2018. Bydd y system yn gofyn ac yn cofnodi dewis iaith, yn ogystal â darparu'r dogfennau a'r ffurflenni perthnasol i staff yn ddwyieithog, yn ôl eu dewis iaith. Anfonir gohebiaeth yn unol â dewis iaith yr unigolyn.
DOGFENNAU HYFFORDDIANT, PERFFORMIAD A CHYNLLUN GYRFA	Datblygodd Prifysgol De Cymru becyn Cymraeg i iTrent yn 2016-17 – y sefydliad cyntaf i'w weithredu yng Nghymru. Mae'r dogfennau a'r ffurflenni a nodir yn Safonau 107-111 felly ar gael yn ddwyieithog ers dros flwyddyn. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu'r system ac yn cyflwyno gwelliannau'n gyson.
POLISIÄU	Adolygwyd polisiau'r Brifysgol dan arweiniad yr adran Adnoddau Dynol ac mae'r polisiau a nodir ar gael yn ddwyieithog.
CWYNION A DISGYBLU	Adolygwyd prosesau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu'r Brifysgol a diweddarwyd y dogfennau perthnasol yn unol â chynllun gweithredu adran Adnoddau Dynol y Brifysgol.
MEDDALWEDD	Mae Cysgliad ar gael ar bob cyfrifiadur y Brifysgol, ynghyd â chanllawiau ar gyfer Cysgliad ar-lein. Mae modd i staff hefyd gysylltu am gyngor trwy Pwynt Busnes TG.
MEWNRWYD	Mae'r Brifysgol wedi dechrau trafodaethau gyda'r darparwr presennol i drafod opsiynau a chostau. Mae Pwyllgor Gweithredu'r Fewnrwyd yn cwrdd yn gyson i drafod y camau a'r amserlen weithredu yn unol â'r dyddiad cydymffurfio (Hydref 2019).
ASESU SGILIAU IAITH	Mae adran newydd wedi'i chyflwyno ar system Adnoddau Dynol newydd y Brifysgol sy'n gofyn am asesiad sgiliau iaith staff. Pan fydd y teclyn asesu cenedlaethol wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi, bwriedir ymgorffori'r teclyn hwnnw i gyd-fynd â'r hunan-asesiad.
HYFFORDDIANT	Darperir cyrsiau yn rhad ac am ddim i bob aelod o staff y Brifysgol. Mae'r Brifysgol hefyd yn rhan o gynllun Cymraeg Gwaith a arweinir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chynhelir digwyddiadau cymdeithasol ac anffurfiol yn gyson i godi hyder staff a myfyrwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

	<p>Mae'r Brifysgol wedi prynu cwrs ar-lein a fydd yn cyflwyno agweddau ar ymwybyddiaeth o iaith, diwylliant a hanes Cymru; dyletswydd y Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau; a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p>
LLOFNOD E-BOST	<p>Mae canllawiau a thempledi wedi'u cyhoeddi ar fewnwyd y Brifysgol ar gyfer pob aelod o staff. Roedd yn rhan o bob cynllun gweithredu ar draws y Brifysgol ac mae Cydlynwyr y Gymraeg yn gwirio ac yn monitro cydymffurfiaeth.</p>
ARWYDDION	<p>Mae canllawiau brandio a marchnata'r Brifysgol wedi'u diwygio a'u cyhoeddi ar fewnwyd y Brifysgol. Anfonir drafft o bob arwydd parhaol at yr Uned Gymraeg a'r Pennaeth Brandio i'w gyfieithu ac i sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth. Ceir templedi o arwyddion cyffredin ar yr Hwb i staff er mwyn hwyluso'r broses.</p>
CYHOEDDIADAU	<p>Un system cyhoeddiadau dros offer sain sydd yn weithredol ar draws y Brifysgol. Yr Adran Farchnata sydd yn rheoli'r system hon. Mae'r staff wedi'u briffio ynghylch sicrhau bod cyhoeddiadau dwyieithog a'r canllawiau wedi'u diweddarau.</p>

3. Monitro a Goruchwyllo

- 3.1. Grŵp Llywio'r Gymraeg sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Safonau ar draws [Grŵp y Brifysgol](#), dan gadeiryddiaeth William Callaway, Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y Grŵp rôl benodol wrth ddatblygu ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ar draws y Brifysgol.

- 3.2. Mae gan bob Ysgol ac Adran ar draws y Brifysgol [Gydlynnydd](#) y Gymraeg sydd â rôl o gynghori a thrafod gofynion y Safonau yn eu hysgolion a'u hadrannau.
- 3.3. Mae Cydlynwyr y Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd dan gadeiryddiaeth Dr Gwawr Jones, Is-Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg.
- 3.4. Gofynnwyd i bob adran a chyfadran greu cynllun gweithredu mewn trafodaethau gydag Uned Gymraeg y Brifysgol. Cytunwyd ar gamau gweithredu ac adroddir ar gynnydd a heriau yng nghyfarfod Cydlynwyr y Gymraeg.
- 3.5. Lle bo'n briodol, darperir adroddiad i'r Grŵp Llywio ar waith a materion a drafodir yng nghyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg.
- 3.6. Er mwyn paratoi at weithredu'r Safonau cafwyd cyfnod monitro mewnol yn ystod mis Mawrth er mwyn adnabod enghreifftiau o arfer dda, yn ogystal ag adnabod unrhyw anawsterau wrth gydymffurfio â'r Safonau. Darparwyd adborth a diwygiwyd cynlluniau gweithredu yn ôl y galw.
- 3.7. Anfonir Adroddiad Monitro Blynnyddol y Brifysgol at Grŵp Llywio'r Gymraeg i'w gymeradwyo cyn ei anfon at Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

4. Hyrwyddo

- 4.1. Mae pob adran a chyfadran wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau sy'n cynnwys dulliau amrywiol o hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn Gymraeg. Gellir cysylltu â cymraeg@decymru.ac.uk am fanylion penodol ar gynlluniau gweithredu lleol.

4.2. I gyd-fynd ag ymgyrch #Maegenihawl Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae Prifysgol De Cymru wedi darparu canllawiau pellach a rhagor o fanylion i fyfyrwyr a staff am eu hawliau newydd. Dyma enghreifftiau o rai gweithgareddau i hyrwyddo'r safonau i fyfyrwyr a/neu staff:

- Stori ar UniLife a'r Hwb (mewnrwyd staff a myfyrwyr)
- Cyfres o luniau a phosteri ar sgriniau ar draws pob campws
- Adroddiad sefydlog ym Mhwyllgor Cangen Prifysgol De Cymru o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Diweddariadau mewn fforymau myfyrwyr
- Canllawiau ar yr Hwb (mewnrwyd staff Prifysgol De Cymru) am hawliau staff a myfyrwyr
- Negeseuon ac erthyglau ym Mriff Craidd y Brifysgol (cylchlythyr at bob aelod o staff)
- Negeseuon e-bost i staff drwy Gydlynwyr y Gymraeg
- Gwybodaeth yn llawlyfrau cwrs myfyrwyr
- Cyhoeddiad ym mhob arholiad i nodi bod modd sefyll yr arholiad yn Gymraeg